DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Tenby Dental Haven

Dyddiad yr Arolygiad: 19 Hydref 2016

Dyddiad cyhoeddi: 20 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-8411-5
© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
    - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
    - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 6
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 6
5. Y Camau Nesaf ........ 9
6. Methodoleg ........ 10

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad dilynol o Tenby Dental Haven yn Warren Street, Dinbych-y-pysgod ar 19 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Tenby Dental Haven wedi gwneud gwelliannau i fodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Tenby Dental Haven yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig i gleifion yn ardal Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro.

Mae Tenby Dental Haven yn un o ddau bractis yng ngorllewin Cymru sy'n eiddo i Petra Dental Group (mae un wedi'i werthu ers yr arolygiad gwreiddiol).

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs, un hylenydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol, gan gynnwys mewnblaniadau deintyddol.

## 3. Crynodeb

Roedd yr ymweliad hwn yn un dilynol ar ôl arolygiad a wnaed ar 17 Chwefror 2016. Diben ein hymweliad y tro hwn oedd ystyried i ba raddau y gwnaed cynnydd wrth roi sylw i'r gwelliannau a nodwyd yn ein hadroddiad o 2015. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y cynnydd a wnaed ers ein hymweliad blaenorol, gwnaethom gael taith o amgylch y practis a siarad â'r staff. Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd pellach i'w gwella ar yr achlysur hwn.

O ran profiad y claf, roedd tri gwelliant wedi'u nodi yn yr adroddiad gwreiddiol. Gwnaethom achub ar y cyfle i adolygu'r adeilad a siarad â'r staff yn ystod ein hamser yn y practis. Roeddem yn siomedig o weld bod y practis wedi dechrau mynd i'r afael â'r gwelliannau ond nad oedd y gwaith wedi'i gwblhau yn achos dau o'r tri maes. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain ar fyrder ac roeddem yn fodlon y byddai rheolwr y practis yn ymgymryd â'r rhain yn fuan.

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn yr adroddiad gwreiddiol ynglŷn â rhoi triniaeth ddiogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn falch o ddarganfod bod cyflenwi gofal diogel ac effeithiol wedi gwella'n sylweddol. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella.

Yn ystod yr arolygiad gwreiddiol, roedd yr angen am drefniadau rheoli mwy effeithiol i sicrhau bod yr holl arferion gweithio'n cydymffurfio â'r canllawiau proffesiynol a'r rheoliadau yn bryder i ni. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y trefniadau rheoli a'r trefniadau clinigol sydd ar waith wedi gwella'n sylweddol. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod y gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n briodol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**O ran profiad y claf, roedd tri gwelliant wedi'u nodi yn yr adroddiad gwreiddiol. Gwnaethom achub ar y cyfle i adolygu'r adeilad a siarad â'r staff yn ystod ein hamser yn y practis. Roeddem yn siomedig o weld bod y practis wedi dechrau mynd i'r afael â'r gwelliannau ond nad oedd y gwaith wedi'i gwblhau yn achos dau o'r tri maes. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain ar fyrder ac roeddem yn fodlon y byddai rheolwr y practis yn ymgymryd â'r rhain yn fuan.**

Dywedwyd wrthym fod tîm y practis wedi mynychu cwrs am roi'r gorau i ysmygu a gwelsom fod gwybodaeth i gefnogi cleifion i roi'r gorau i ysmygu ar gael yn y practis.

Rhoddwyd sampl o daflen wybodaeth newydd y practis i ni, a oedd yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol. Gwnaeth cynrychiolwyr y practis sicrhau AGIC iddynt gyfarfod â dylunydd y wefan ar 21 Mawrth 2016. Fodd bynnag, gwelwyd o wirio'r wefan nad oedd wedi'i diweddaru. Mae angen cwblhau hyn.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn gwyno a gweld nad oedd wedi'i newid unwaith eto. Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a thynnu sylw at y meysydd yr oedd angen eu hadolygu. Cawsom ein sicrhau y byddai hyn yn cael sylw ar unwaith.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn yr adroddiad gwreiddiol.Roeddem yn falch o weld bod gwelliant sylweddol wedi bod wrth gyflenwi gofal diogel ac effeithiol. Ni nodwyd unrhyw feysydd newydd i'w gwella.**

Gwnaethom edrych ar y meysydd i'w gwella ers yr adroddiad diwethaf o ran gwarchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'r staff. Roeddem yn fodlon bod y practis wedi mynd i'r afael â'r holl faterion ar sail y rhesymau canlynol:

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi gosod diffoddwyr tân mewn mannau addas er mwyn gwella diogelwch y cleifion. Gwelsom hefyd fod cyfarwyddiadau i'w dilyn, pe bai tân, yn weledol ar y waliau yn yr ystafell staff a'r dderbynfa flaen.

Anfonwyd copi o'r dystysgrif cynnal a chadw nwy at AGIC ac fe welsom gopi gwreiddiol y dystysgrif yn y practis.

Roedd y poster iechyd a diogelwch wedi'i ddiweddaru ac roedd yn weledol yn yr ystafell staff a'r swyddfa. Gwelsom lyfr damweiniau newydd hefyd ar gyfer cofnodi unrhyw ddigwyddiadau anffodus.

Roedd llyfr damweiniau newydd ar waith, a oedd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Hefyd, roedd ffeil ar gyfer cadw adroddiadau terfynol yn ddiogel.

Gwelsom system newydd ar gyfer gwaredu nodwyddau a dylai hon leihau nifer y staff sy'n dioddef anafiadau gan nodwyddau yn sylweddol.

Bu'r practis mewn cyswllt â'r gwasanaeth tân a chymryd cyngor ganddo o ran adolygu asesiadau risg a chwblhau'r cofnodion oedd angen sylw o hyd. Roedd y ffeiliau hyn ar gael ar y diwrnod, fel y gellid craffu arnynt.

Gwnaethom edrych ar y ffeil Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac, yn ôl rheolwr y practis, mae'r ffeil yn newid ac yn esblygu'n barhaus ac yn cael ei diweddaru neu ei diwygio wrth i sylweddau peryglus newydd gael eu prynu.

Gwelsom fod gan y practis gontract newydd â'r cwmni gwastraff ar gyfer cael gwared ar ddannedd a dynnwyd, gypswm, a gwastraff hylendid benywaidd yn ddiogel. Fodd bynnag, wrth wirio hyn, gwelsom nad oedd yr uned briodol ar gyfer gwaredu gwastraff hylendid benywaidd yn cael ei defnyddio. Dywedodd rheolwr y practis y byddai hyn yn cael ei newid ar unwaith ar y cyd â'r cwmni gwaredu gwastraff.

O ran dadheintio offerynnau yn ddiogel ac yn effeithiol, gwelsom y canlynol bellach:

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyfredol, yn gyson â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac yn cael eu cadw mewn ffeil y gallai staff gael ati'n rhwydd.

Roedd gwaith wedi dechrau ar archwiliad rheoli heintiau, sef y dull archwilio a awgrymir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y stereleiddiwr heb dystysgrif cynnal a chadw gyfredol wedi cael ei waredu ac nid oedd yn yr ystafell driniaeth bellach.

Gwelsom hefyd dystiolaeth bod gwaith cadw tŷ a gwiriadau peiriannau sterileiddio ac uwchsonig yn cael eu cofnodi. Hefyd, roedd system gadarn ar gyfer cofnodi'r gwiriadau a'r profion hyn, a oedd yn gyson â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y staff bellach yn defnyddio menig cryf ar gyfer glanhau cyfarpar â llaw.

Nid oedd y practis yn defnyddio offer deintyddol endodontig fwy nag unwaith bellach. Dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu defnyddio unwaith ac yn cael eu gwaredu ar unwaith yn dilyn triniaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi mynychu hyfforddiant dadheintio ers yr arolygiad gwreiddiol a gwelsom dystysgrifau i brofi hynny.

Dywedwyd wrthym a gwelsom dystysgrif i gadarnhau bod y prif ddeintydd wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf ac mai ef oedd swyddog cymorth cyntaf dynodedig y practis. Gwelsom hefyd fod y staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Cyfrifoldeb nyrs y practis bellach yw gwirio'r offer dadebru yn rheolaidd ac roedd cofnodion y gwiriadau a wnaed ar gael i ni eu gweld.

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu wedi'u diweddaru ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a'r manylion cyfeirio perthnasol fel bo'r angen.

Gwnaethom ofyn i gael gweld tystiolaeth o archwiliadau radiograffig (pelydr-X) a sampl ar hap o nodiadau cleifion. Roedd gwelliant o ran manylder gwybodaeth y cofnodion gyda meysydd a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol yn cael eu cofnodi’n gyson ac yn gywir.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Yn ystod yr arolygiad gwreiddiol, roedd yr angen am drefniadau rheoli mwy effeithiol i sicrhau bod yr holl arferion gweithio'n cydymffurfio â'r canllawiau proffesiynol a'r rheoliadau yn bryder i ni. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y trefniadau rheoli a'r trefniadau clinigol sydd ar waith wedi gwella'n sylweddol. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod y gwasanaethau a ddarperir yn ddiogel ac yn cael eu rheoli'n briodol.**

Gwelsom fod trefniadau rheoli clir ar waith i sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu creu, eu hadolygu a'u diweddaru’n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau a'r canllawiau presennol.  Roedd y polisïau hyn oll yn cael eu cadw gyda'i gilydd mewn ffeil y gallai staff gael ati'n rhwydd.

Gwelsom arfarniadau staff a'u bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y staff i gyd wedi cael profion gwaed yn ddiweddar er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hamddiffyn yn ddigonol yn erbyn Hepatitis B ac roedd cofnodion statws eu himiwnedd ar gael. Gwnaethom awgrymu cadw'r cofnodion hyn o fewn ffeiliau staff unigol.

Gwnaethom ddarllen cofnodion y cyfarfodydd staff newydd, ond dywedwyd wrthym fod y practis yn parhau â'r arfer o gynnal cyfarfodydd boreol, anffurfiol.

## 5. Y Camau Nesaf

Nid arweiniodd y canfyddiadau o'r arolygiad hwn at yr angen i'r practis gwblhau cynllun gwella.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio gyda’i gilydd.  Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.